

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 9ed o Chwefror 2010.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: Hefina MW Roberts (Cadair), Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry W Owen, Dafydd Glyn Owen, Sharon Wynne Owen, D Martin Williams - Talysarn; Dyfed Edwards, Elwyn Jones-Griffith, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Eurig Evans – Nebo; OP Huws (Cynghorydd Sir), Rhys Owen (Parc Cenedlaethol Eryri.

Gwahoddwyd Rhys Owen – Swyddog o'r Parc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod i drafod Cors y Llyn, Nebo. Fe hysbysodd y Cyngor bod cyllid wrth gefn i waredu rhododendron, a bod y rhan fwyaf o'r gors o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Gofynwyd am ganiatad y Cyngor (fel ymddiriedolwyr) i fynd ati i gael gwared o'r rhododendron drwy roi chwynladdwr, torri neu losgi. Pawb yn cytuno i'r broses gychwyn.

Derbyniwyd cwynion bod rhai cartrefi ym Mhenygroes dal heb dderbyn eu biniau brown gan Gyngor Gwynedd, ac hefyd bod anghysondeb yn yr atebion a geir gan weithwyr Cyngor Gwynedd o ble i roi y biniau bach brown ar gyfer eu casglu. Bydd y lori ailgylchu a'r lori ysbwriel yn cyrraedd yr un amser weithiau, ac yn achosi tagfeydd traffic (yn Llanllyfni).

Roedd nifer o gwynion am y graeanu drost y cyfnod eira a rhew – heb gritio ar y gyffordd ger giat y cae chwarae yn Nhalysarn, nac at yr ysgol, nac ychwaith at y swyddfa bost. Byddwn yn gofyn am flychau graean ar gyfer y lleoliadau canlynol – Tu allan i Plas Coed Madog, Talysarn; maes parcio Ysgol Talysarn; Pont drost ffordd osgoi Penygroes; Stryd y Dwr, Penygroes; Stryd yr Wyddfa, Penygroes; Lon Becws Talysarn; Lon Coed Cae Du, Llanllyfni; Lon Ddwr, Llanllyfni; Neuadd Llanllyfni; Baracs Nantlle. Hefyd, byddwn yn hysbysu Cyngor Gwynedd fod y blwch halen ger Lleuar Fawr, Llanllyfni wedi malu ac angen ei adnewyddu.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

*Bodychain Uchaf, Llanllyfni – cais ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid.

*20 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – estyniad cefn llawr cyntaf.

*Hen Glwb Nantlle Vale, Penygroes – cais llawn i newid lleoliad gorsaf heddlu a man newidiadau i'r dyluniad a ganiatawyd eisioes.

Caniatawyd codi adeilad dros dro Kruger Tissue, Penygroes.

Mae'r Cyngor yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael newid defnydd blwch ffon Nebo yn fan i arddangos posteri ar gyfer y pentref.

Derbyniwyd llythyrau gan Gyngor Gwynedd ynglyn a'r Gorchymyn Trefn Unffordd a Chyfyngiad 30mya Talysarn. Byddwn yn gofyn am gyfarfod safle i drafod y cynllun gyda'r swyddog, ac hefyd cyfarfod safle i drafod 'Llwybrau Diogel Talysarn.'

Adroddiadau Pentrefi

Penygroes Cais am focs graeanu wrth y bont gerdded dros y ffordd osgoi – byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd eto.

Baw Cwn yn y pentrefi yn gyffredinol – strydoedd Penygroes, Talysarn, Llanllyfni. Bro Silyn Talysarn. Lon Eifion. Mae'r Cyngor yn bryderus iawn am hyn, ac yn teimlo'n gryf iawn y dylid atal hyn rhag digwydd – byddwn yn holi Cyngor Gwynedd faint o berchnogion sydd wedi derbyn dirwy, a gofyn iddynt os oes modd amlygu'r broblem yn y lle cyntaf – mae angen pobl o'r peryglon baw cwn i blant ac yn y blaen. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd roi cyhoeddusrwydd mawr i amlygu'r broblem. Ymddiswyddiad Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghorydd Ann Vaughan Jones – mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i Ann am ei gwasanaeth yn ystod ei chyfnod ar y Cyngor, ac yn dymuno yn dda iddi.

Llwybrau a Mynwentydd. Mynwentydd: Arolwg Cerrig Beddi MacPelah – o’r rhestr a roddwyd yn y papur newydd ddeufis yn ol, mae chwech teulu wedi cysylltu a’r Clerc. Bydd y Cyngor felly yn symud ymlaen i osod stanciau y tu ol i’r cerrig beddi eraill sydd yn rhydd, nes daw cysylltiad teuluol i’r amlwg. Llwybrau Llwybr ar ben y boncen ger Poveys at y gylchfan yn wlyb ofnadwy – y ddwy ochr i’r ffordd (darn o Lon Eifion) – lot o ddefnydd arni, ac angen haenen o lechi cyn y bydd yn dirywio mwy. Byddwn yn cysylltu gyda Mark Ballaam.

Ceisiadau am Arian – 2010-2011. Penderfynwyd fel a ganlyn. Cyfrannu £50 yr un i’r canlynol:

1. Aelwyd Urdd Dyffryn Nantlle
2. Dawns I Bawb
3. Ysgol Feithrin Llanllyfni
4. Neuadd Goffa Llanllyfni
5. Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle
6. Cylch Meithrin Penygroes
7. Lleu
8. Clwb Pel Droed Dyffryn Nantlle
9. Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni
10. Clwb Pel Droed Talysarn

Clustnodwyd arian ar gyfer ceisiadau gan gystadleuwyr i’r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.